Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Mair Newell**

**Aberteifi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Rhagfyr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus iawn yn y lleoliad hwn. Maent yn chwarae'n rhydd, yn fodlon eu byd, ac yn cyfleu eu hanghenion yn hyderus. Mae'r plant yn dewis teganau a gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt o'r dewis sydd ar gael. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol a hoffus â'r gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar ac yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'n cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae rhydd a rhai gweithgareddau wedi'u cynllunio i'r plant gymryd rhan ynddynt yn annibynnol neu gyda chymorth.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn ddiogel ar y cyfan. Mae'n cwblhau asesiadau risg cyffredinol boddhaol; fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth ddigonol o adnoddau, sy'n cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu chwarae a dysgu'r plant.

Caiff y lleoliad ei reoli'n dda. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth fuddiol o bolisïau a gweithdrefnau. Mae'n meddu ar gymwysterau addas ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth. Mae'n cyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad hwn. Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn mynegi eu hunain ac yn hyderus wrth wneud hynny. Maent yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Er enghraifft, maent yn symud yn rhydd o amgylch y lleoliad ac yn dewis pa deganau a gweithgareddau i chwarae â nhw.

Mae'r plant yn ymgysylltu â'r gwarchodwr plant, sy'n ymateb iddynt mewn ffordd fagwrus a phriodol, gan wneud iddynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent wedi setlo'n dda ac yn gallu ymlacio. Mae'r plant yn dangos bod ganddynt gydberthnasau emosiynol cadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac maent yn gwbl gyfforddus yn ei chwmni. Mae'r plant yn egnïol ac yn dangos mwynhad wrth chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Er enghraifft, mae'n amlwg eu bod yn mwynhau adrodd straeon a chwarae gyda'r ceir, y trenau a'r tryciau gan eu bod yn gwenu ac yn chwerthin. Caiff y plant eu trin â pharch ac mae'r gwarchodwr plant yn ystyried eu safbwyntiau. Er enghraifft, mae'n gofyn i'r plant a ydynt yn barod am eu cinio neu a hoffent fynd allan i chwarae.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson dda. Mae'r plant yn mwynhau ei chwmni ac yn gwenu a chwerthin gyda hi wrth iddynt chwarae a bwrw ati â threfn y dydd. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda am eu hoedran. Mae ganddynt ddiddordeb brwd yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac maent yn barod i gymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, maent yn mwynhau adrodd straeon ac amseroedd bwyd cymdeithasol gyda'r gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus. Maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Er enghraifft, dangosodd un plentyn fwynhad a diddordeb parhaus wrth chwarae gan ddefnyddio ei ddychymyg â'r ffigurau pobl bach. Cafodd y gweithgaredd hwn ei gefnogi a'i ehangu gan y gwarchodwr plant. Cynyddodd lefel hunan-hyder y plentyn wrth i'r gwarchodwr plant ei annog i ailadrodd geiriau a brawddegau, gan roi llawer o ganmoliaeth. Mae rhyddid gan y plant i archwilio eu hamgylchedd dan do. Cânt gyfleoedd da i ddechrau eu chwarae ac i ddylanwadu ar eu gweithgareddau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth. Cânt eu hannog i fwydo eu hunain yn annibynnol yn ystod amser bwyd, ac i ddewis a defnyddio rhai adnoddau yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau pwrpasol, sy'n hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant. Mae ganddi weithdrefnau ar waith i ddiogelu'r plant, ac roedd yn gallu ymateb i senarios amddiffyn plant yn briodol ac yn hyderus. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu iechyd a hylendid y plant yn llwyddiannus. Caiff y plant eu hannog i olchi eu dwylo'n rheolaidd, yn enwedig cyn ac ar ôl bwyta. Mae ganddi dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd cyfredol. Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau, digwyddiadau a phrosesau rhoi meddyginiaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant pan fyddant yn ymwneud â'r gath anwes ac mae wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni yn hyn o beth.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi rheoli ymddygiad ar waith sy'n nodi strategaeth gadarnhaol mewn perthynas ag ymddygiad. Mae'n dilyn y polisi ac yn defnyddio'r strategaethau rheoli yn effeithiol, gan ganmol y plant am eu cyflawniadau. Gwnaethom ei chlywed yn annog y plant ac yn ymateb iddynt yn gadarnhaol drwy gydol ein hymweliad. Er enghraifft, drwy ddweud "*Good boy*!" a chanmol y plant yn llawn brwdfrydedd pan fyddant yn gorffen eu bwyd. Mae'n modelu'r iaith sy'n gysylltiedig â moesau da ac mae bob amser yn ymddwyn fel model rôl da. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'r plant, ac ar yr un pryd mae'n eu hannog i ddysgu ac yn gwneud ymdrech benodol i hybu eu hunan-barch. Mae'r rhyngweithio yn gyson gadarnhaol, gan ddangos parch, cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar ac yn rhoi gofal ymatebol. Mae'n ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac yn cadw cofnodion datblygiadol ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw'r rhain na'r arsylwadau dyddiol yn llywio'r gwaith cynllunio na chamau nesaf y plant. Mae'n cefnogi'r plant pan fyddant yn chwarae'n rhydd, ac yn defnyddio cyfleoedd achlysurol i ehangu trafodaethau a chyfleoedd dysgu. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'r tŷ doliau, mae'n cyflwyno geirfa newydd ac yn siarad am y gwahanol gymeriadau a beth y maent yn mwynhau ei wneud. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r Gymraeg i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ac iaith y plant ymhellach.

## Yr Amgylchedd Digonol

Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel ac yn gaeedig, sy'n cyfyngu ar fynediad y cyhoedd. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r safle. Mae'n cynnal ymarferion tân rheolaidd ar adegau amrywiol, fel bod y plant yn gyfarwydd â'r drefn. Mae rhai asesiadau risg ar waith, er enghraifft ar gyfer yr amgylchedd a theithiau allan. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r rhain fel dogfennau gweithredol a allai olygu na fyddai peryglon posibl yn cael eu nodi yn y lleoliad. Ers yr arolygiad, mae'r gwarchodwr plant wedi dechrau llunio asesiadau risg mwy dynamig y bydd yn haws eu hadolygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan, a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n gymharol dda y tu mewn a'r tu allan. Gall y plant ddefnyddio'r ardal fyw a'r gegin, sy'n cynnig mwy o ofod chwarae iddynt. Yn yr ystafell fyw, ceir mannau storio ar lefel isel y gall y plant eu cyrraedd pan na fydd unrhyw rwystrau. Mae'r cyfleusterau newid cewynnau a'r toiled a ddefnyddir i fyny'r grisiau ac mae'r plant yn cael eu goruchwylio'n agos. Mae'r gwarchodwr plant eisoes wedi dechrau adolygu'r asesiadau risg mewn perthynas â'r grisiau ers cael gwared ar y giât diogelwch ar ben y grisiau. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da iawn o ddau faes chwarae lleol er mwyn sicrhau bod y plant yn mwynhau amser yn yr awyr agored ac yn cael budd ohono.

Dan do, mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o deganau a chyfarpar chwarae ar gael i'r plant sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Gall y plant gael gafael ar y rhan fwyaf o'r teganau a'r adnoddau eu hunain. Pan nad oes digon o le i gyrraedd y mannau storio, maent yn gofyn i'r gwarchodwr plant nôl yr hyn sydd ei eisiau arnynt. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gwneud defnydd da o'r ardal awyr agored, lle ceir cegin fwd ac ardal laswelltog. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau ar gael i'r plant chwarae â nhw, er enghraifft nid oedd unrhyw lestri na chyfarpar yn y gegin fwd. Mae'n darparu llyfrau ac adnoddau Cymraeg a Saesneg i'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth yn dda. Mae'n drefnus ac yn cadw'r holl gofnodion gofynnol i safon dda. Mae'r gwarchodwr plant wedi cofrestru â chymdeithas broffesiynol ar gyfer gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Mae ei datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir, sy'n golygu bod teuluoedd yn gallu gwneud dewis ar sail gwybodaeth wrth ystyried a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion. Mae amrywiaeth o bolisïau buddiol a thrylwyr ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar gymwysterau addas ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth. Mae ganddi hefyd rywfaint o ddealltwriaeth o'r arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant y mae'n gofalu amdanynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gwasanaeth ac yn myfyrio arno ac yn llunio adroddiad priodol ar ansawdd y gofal. Mae'n gofyn am wybodaeth gan y rhieni a'r plant i'w helpu i werthuso ei gwasanaeth ac yn cynnig cyfleoedd iddynt awgrymu gwelliannau. Mae'r gwarchodwr plant yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda ac yn targedu meysydd i'w gwella.

Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar gymwysterau addas ac wedi trefnu i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol er mwyn diweddaru ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth, er mwyn gallu cael effaith gadarnhaol ar y plant y mae'n gofalu amdanynt. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar ei chyfer hi a phob aelod o'r cartref yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gan weithredu'n gyflym ar argymhellion mewn perthynas â'i gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Dywedodd y rhieni a gwblhaodd holiaduron fod y gwarchodwr plant yn hyblyg ac yn barod i ystyried unrhyw geisiadau ganddynt. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gwybodaeth reolaidd i'r rhieni drwy gyfathrebu ar lafar a thrwy ddyddiadur manwl, sy'n cynnwys y drefn o ddydd i ddydd, arsylwadau, gweithgareddau a negeseuon.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Adolygu asesiadau risg ar gyfer y safleo leiaf unwaith y flwyddyn a chofnodi unrhyw wiriadau diogelwch a thasgau glanhau sy'n cael eu cynnal, er mwyn dangos sut y caiff peryglon eu monitro a'u rheoli'n briodol. |
| Safon 4 - Diwallu anghenion unigol | Sicrhau bod arsylwadau yn llywio'r broses gynllunio ac yn nodi'r camau nesaf ar gyfer dysgu a datblygu. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Darparu adnoddau awyr agored i wella'r amgylchedd a hybu chwilfrydedd a chreadigrwydd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/10/2024